
# Newyddion Bethlehem



www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Diwedd Gwanwyn 2019

cymorth cristnogol



**Yn y rhifyn hwn...**

crynodeb o luniau a hanesion o ganol Ionawr hyd fis Mai!












## Diolch...

i bawb am eu gwaith dros ymgyrch Cymorth Cristnogol eleni.

Fel gwelwch o'r lluniau, bu rhai o aelodau'r ysgol Sul, dan arweiniad Heulwen Jones, yn cynnal yr oedfa ar fore Sul, Mai 12fed.

Trefnodd Ian Hughes fintai o wirfoddolwyr i fynd o ddrws i ddrws i gasglu cyfraniadau ym mhentref Gwaelod-y-garth. Diolch i Ian a'r casglwyr oll.

# Suliau – hyd fis Tachwedd 2019

MAI
19. Y Parchg Lona Roberts
26. Y Parchg. Ganon Aled Edwards

MEHEFIN
2. Delwyn Siôn
9. Sulgwyn – Y Gwragedd
16. Y Parchg Ken Williams
23. Y Parchg Dewi Myrddin Hughes

GORFFENNAF
7. Y Parchg. Elfed ap Nefydd Roberts
14. Sul y Cyfundeb
21. Delwyn Siôn
28. Arwel Ellis Owen (Efail Isaf yn ymuno)

AWST
4. Cymun - Efail Isaf (10.45)
11. Bethlehem (10.30)
18. Efail Isaf (10.45)
25. Bethlehem (10.30)

MEDI
1. Y Parchg Dafydd Owen (cymun)
8. Delwyn Siôn
15. Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
22. Y Parchg. Gethin Rhys
29. Cwrdd Diolchgarwch- Heulwen

HYDREF
6 Delwyn Sion
13 Y Parchg. Glyn Tudwal Jones
20 Y Parchg Gareth Morgan Jones
27. Mr. Ion Thomas

TACHWEDD
3. Delwyn Sion
10. Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
17. Y Parchg. Allan Pickard
24. Y Parchg Ddr Noel A. Davies

**Anfonwn ein cofion at y rhai canlynol sydd heb fod yn eu llawn iechyd yn ddiweddar:**

- Avril Pickard
- Gwilym Williams
- Mary Edwards
- Betty Williams
- Dafydd a June Huws
- Vi a Gwyn Jones
- Glyn O Phillips
- Nia Jones
- Eurfryn Thomas

**Rydyn ni'n cydymdeimlo'n ddiffuant iawn â'r canlynol:**

- Ellen Lewis, Radur, ar farwolaeth ei gwr, John, yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd. Anfonwn ein cofion hefyd at y meibion, Gareth a David, Melanie'r ferch yng nghyfraith a'r ŵyr, William.

- Huw a Carys Williams wedi i frawd Huw, Robin a'i briod Gwenno, golli mab, Llywelyn, yn 26 mlwydd oed ym Mhontrug.

**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones**

**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@btinternet.com

## Croeso i'r babis!

- ***Anna Mathias Allan***, *merch i Manon a Lewis yng Nghaeredin – wyres i Catrin a Hefin Mathias.*
- ***Mathew Islwyn Evans*** *i Huw a Sioned yng Nghaerdydd – ŵyr i Delyth a Peredur Evans.*
- **Rhydian James Evans** yng Nghasnewydd *- ŵyr i Delyth Evans, Y Barri.*
- **Nel**, merch i Mari a Gareth, a chwaer i Jac a Cadi – wyres arall i Shan Osborne

**Llongyfarchiadau ...**
- i Catherine Blythe ar ennill gradd Dosbarth cyntaf yn ei chwrs Nyrsio a sicrhau gwaith fel nyrs yn Ysbyty Frenhinol Gwent.
- i Ann Siôn, Marged Cartwright a Siân Thomas ar eu hymddeoliad (cynnar!).
- i Owain Lloyd ar ei benodiad i fod yn Ysgrifennydd Bwrdd S4C.



Llongyfarchiadau i Glyn Evans a Tania Wilson Price ar eu priodas ym Methlehem ar Ebrill 25. Hon oedd y briodas gyntaf i Delwyn weinyddu ynddi ac, fel y mae'n cyfeirio isod, roedd ganddo hen law brofiadol wrth ei ymyl, sef y Parchedig Aled Gwyn. Un o gyd-organyddion Tania, Peter Wyn Thomas, oedd wrth yr offeryn a chafwyd datganiad sacsoffon gan Carwyn, un o feibion Tania. Fe a'i frawd, Llyr, oedd yn ei chyflwyno i'w phriodi, a John, brawd Glyn, oedd y gwas.



**(uchod):** Bedydd Olwen, merch Medi ac Owain Lloyd,yng ngwasanaeth Gŵyl Dewi Mawrth 3)

**<u>Neges gan Delwyn</u>**

# HADAU

Bues i'n ddigon ffodus yn ddiweddar i weinyddu ym mhriodas Tania a Glyn; fy mhriodas gyntaf; diwrnod arbennig i mi, a diwrnod arbennig i bawb buodd yno. Fe ges i gwmni'r anwylaf o ddynion i 'nghynorthwyo, cyfaill i'r naill deulu a'r llall yn y Gorllewin; sef y Parchedig Aled Gwyn, ac fe ddarllenodd Aled ddarn o gerdd gan y diweddar Alice Evans, mam Glyn, cerdd sy' werth i'w hailadrodd, yn arbennig a ninne yn nhymor y Sioeau Gardd a Blodau.

*"Gardd i'w thrysori yw calon dyn,*
*Pwy yw y garddwr? Y dyn ei hun.*
*Ef sydd i'w phalu a'i pharatoi,*
*A hau yr had y mae Duw'n eu rhoi.*
*Hadau haelioni, brawdgarwch, amynedd,*
*Hadau llawenydd, cyfiawnder, gwirionedd.*
*O! dyma hadau! Fe'u gwnaed yn y nef,*
*Fe'u lluniwyd yn gywrain a'i ddwylo cain Ef."*

Diolch Alice, jesd y math o hadau sy' angen ar ein cymdeithas friw Frexitaidd heddi. Heuwn rhain a brwdfrydedd.

***Delwyn Sion***



**(chwith ):** Bedydd Gruffydd Hedd, mab Mark a Caryl a brawd bach i Osian (Ionawr 6)

**(dde):** Bedydd Deio, mab Anna ac Owain (Ebrill 14)





## *Noson yn y Mango!*

Digon prin y caech chi ddull mwy dymunol o godi arian at ein helusen leol na thrwy ymgynnull mewn bwyty ar Stryd Y Porth yn Ionawr am bryd Indiaidd. Diolch yn arbennig i **Alwyn ac Angharad Harding Jones** am drefnu unwaith eto. Roedd y gwmnïaeth yn felys, y bwyd yn flasus a'r elusen, Ysbyty Felindre, ar ei hennill o £900. Diolch i bawb gefnogodd y noson. Mae'r wên ar wyneb Alwyn yn dweud y cyfan!





**£900 ar blât!**







Llongyfarchiadau i Rhys Powys ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Farddol Menter Caerdydd. Idris Reynolds oedd y beirniad. Dyma'i gywydd – "Storm"

## Storm

Drws yn agor. Dwi'n gorwedd
Yn oer, di-boer, fel mewn bedd,
Yn welw'n amdo 'ngwely
A dad yn meddiannu'i dŷ.

Y betio, yna'r botel,
"Y blydi hŵr, blydi hell",
Utgorn o regfeydd atgas
Yna mam yn dianc mas
Ar ras i'r glwyd; drws ar glo,
Sŵn taran sy'n y taro.
Wedi'r pledio daw'r pledu
Gyda'i ddwrn, a llygad ddu.
Dynes gaeth, dyn sy' o'i go
A'r waliau'n edliw'r wylo.

Daw eiliad o dawelwch,
Minnau 'nghudd, llonydd fel llwch.
Y gwely'n wlyb mewn galar...
Y storm sy'n dringo lan star.

Rhys Powys



Yr arlunydd Sion Tomos Owen



Y Prifardd Gruffydd Owen




Elenid Jones yn trafod Apêl Madagascar





Gwyn Roberts ac R Alun – dau o'r rhai fu'n annerch y Cwrdd Merched (gweler y dudalen nesaf)

Diolch i bawb sydd wedi anfon lluniau a pharatoi adroddiadau am y gweithgareddau ym Methlehem. Mae'r hanes tu ôl i rai o'r lluniau uchod i'w gweld isod ac ar y dudalen nesaf.



Y Cwrdd Merched yn Sain Ffagan gydag Elen Phillips



Shan Osborne, Avril Pickard a Rhian Huws ymhlith y llyfrau yn y Cwrdd Merched

## Profiad arall yn Sain Ffagan

Roedd prynhawn y 9fed o Ebrill yn ddiflas a llwyd o ran tywydd ond fe gafodd criw bach ohonon ni brofiad arbennig wrth ymweld ag Amgueddfa Werin Sain Ffagan unwaith eto. Y tro yma, buon ni'n ddigon ffodus i gael y pleser o gwrdd ag Elen Phillips, Prif Guradur Hanes Cyfoes a Chymunedol - Gwisg a Thecstilau yr Amgueddfa. Roedd Elen wedi paratoi'n drwyadl ar ein cyfer ac fe gawsom weld a thrafod nifer o eitemau unigryw, gan gynnwys pâr o fenig ganrifoedd oed, sampleri amrywiol, gwaith cwiltio ac yna focs yn llawn o'r esgidiau mwya' hardd. Roedd y rheiny wedi'u creu mor gywrain a'u gweld oedd uchafbwynt y prynhawn i ni i gyd mae'n siŵr. Ond, roedden nhw mor fach, fydden nhw ddim wedi ffitio un ohonon ni! Eglurodd Elen sut roedd rhaid cadw'r holl eitemau yn daclus mewn papur a bocsys arbennig, eu cofnodi a'u catalogio'n fanwl.

Cawsom y pleser wedyn o fynd o gwmpas rhai o'r storfeydd oedd yn llawn dop o bob math o eitemau gwerthfawr - telynau, cadeiriau Eisteddfodol a chelfi amrywiol eraill. Roedd y storfa tecstilau yn oerach na'r lleill ac eglurodd Elen pa mor bwysig yw hi i gadw popeth o dan yr amodau priodol ac os bydd unrhywbeth yn cael ei symud o un o'r storfeydd i leoliad arall ar gyfer ei arddangos, mae rheolau llym i'w dilyn a chofnod manwl o'r dyddiad, y lleoliad a'r achlysur yn cael ei nodi.

Ar ôl yr ymweliad, roedden ni i gyd yn sylweddoli o'r newydd cymaint o gyfoeth hanesyddol sy' o'n cwmpas yng Nghaerdydd a pha mor ffodus oedden ni i gael y cyfle i wrando ar Elen yn trafod ei gwaith mor frwdfrydig ac mewn ffordd mor rhwydd, gwybodus a diddorol.

Diolch iddi am y profiad ac am oleuo prynhawn digon diflas!

***Carol J Davies***

## *Shan a'r llyfrau*

*Ym mis Ionawr daeth Shan Osborne atom unwaith eto i gyflwyno detholiad o lyfrau a aeth a'i bryd y llynedd.*

*Mae brwdfrydedd Shan tuag at lyfrau a'u hawduron mor heintus a fe'i llwyddodd i ddod â gwên i'n wynebau'n aml yn ystod yr awr. Er iddi drafod gweithiau llenyddol diweddar yn bennaf, tynnodd ein sylw at yr hen nofelau clasurol yn ogystal ac efallai y dylem ail-gydio ynddynt o bryd i'w gilydd.*

*Aethom adre â rhestr o ddefnydd darllen difyr a diddorol iawn. Diolch yn fawr Shan am ein hysbrydoli eleni eto.*

***Gwyneth Lewis***

### A phedwerydd oedd Sam

Roedd hi'n braf iawn cael croesawu'r Parchedig Ddoctor R. Alun Evans fel ein siaradwr gwadd Y Cwrdd Merched ym mis Chwefror.
Testun ei sgwrs oedd "A phedwerydd oedd Sam"- ac er ein bod ni wedi cysylltu'r testun gyda cherdd T Rowland Hughes "Y Ras," Sam Jones cynhyrchydd gyda'r BBC oedd Sam yn yr achos yma.
Cawsom hanes ei fywyd - o'i fagu yng Nghwm Tawe - lle buodd yn pregethu yn 8 oed! - i'w gyfnod yng ngholeg Bangor-lle dechreuodd ei gysylltiad 'da'r BBC, ei waith gyda 'r Western Mail ac yna nol i Fangor i'r BBC unwaith eto.
Fe oedd yn gyfrifol am ddatblygu rhaglenni fel 'Wedi'r Oedfa' 'Rhwng Gwyl A Gwaith' a'r 'Noson Lawen' ar gyfer y sianel. Daeth a phobl megis: Charles Williams, Triawd y Coleg, Bob Roberts Tai'r Felin a Chôr Dyffryn Nantlle yn fyw o Neuadd y Penrhyn ym Mangor i setiau radio ledled Cymru. Rhaglenni hynod boblogaidd oeddynt fu'n denu cynulleidfaoedd enfawr bob wythnos ac roedd yn hyfryd cael blas o raglen 'Y Noson Lawen ' a ddarlledwyd gynta' ym 1948.
Bu gwrando ar R. Alun Evans yn siarad mor huawdl a gafaelgar am ei destun yn bleser pur i bawb oedd yno.

***Ann Lewis***

## Taith Gwyn o'r Bala i Rydlafar

Yn ein Cwrdd Merched mis Mawrth cawsom gyfle i groesawu Gwyn Roberts. Gwyn a Marian, ei wraig, yw rhai o aelodau mwyaf diweddar Teulu Bethlehem. Difyr fu dilyn taith bywyd Gwyn o'i fagwraeth yn Y Bala, i'r Coleg yng Nghaerdydd yna i'w swydd fel Prifathro Ysgol Gynradd Llanfair Talhaearn cyn dod yn Ymgynghorydd Addysg yn Sir Conwy. Magodd ef a Marian ddwy o ferched, Nia a Lois a nhw fu'n gyfrifol am ddyfodiad Taid a Nain i Gaerdydd i gael mwynhau cwmni'r ŵyrion Huw ac Elis.
Cafodd Gwyn ei fagu ar aelwyd ddiwylliedig grefyddol yn y Bala, ei dad yn Ysgrifennydd Eglwys yr Annibynwyr a'i fam yn Brifathrawes Ysgol Capel Celyn. Yn wir, hi oedd Prifathrawes olaf yr Ysgol gan i'r Ysgol a holl ardal Capel Celyn fynd o dan "ddyfroedd oer Tryweryn" yn 60au'r ganrif dd'wetha'.
Roedd ym meddiant Gwyn rai creiriau o'r hen Ysgol yng Nghwm Celyn ond erbyn hyn mae wedi eu trosglwyddo i ofal Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Da oedd i ni gael ein hatgoffa o gyfnod chwyldroadol iawn yn hanes Cymru. Diddorol iawn fu cael dod i adnabod Gwyn a'i deulu yn well.

***(Eirlys Davis, Radur)***

***Cylch Cadwgan ym Methlehem***

## Ioan yn trafod ei nofel



Cysgodion Cam oedd testun sgwrs Ioan Kidd, cyn-enillydd llyfr y flwyddyn, pan gynhaliwyd noson Cylch Cadwgan yn festri Bethlehem ar Ebrill 26. Mae Ioan bellach yn awdur llawn amser, ac yn mwynhau'r ysgrifennu, tra'n cyfaddef nad ydy e'n gwbl gysurus yn hyrwyddo ei gynnyrch ei hun. Ond serch hynny, cawsom sgwrs hynod afaelgar a didwyll ganddo am ei waith a'r dechneg ddefnyddiwyd ganddo yn "Cysgodion Cam" o blethu digwyddiadau hanner can mlynedd yn ôl gyda'r presennol.
Roedd yno gynrychiolaeth deilwng o selogion Cylch Cadwgan sydd, fel y gwyddoch efallai, yn gwlwm o gymdeithasau lleol yn ymestyn o Llantrisant i Waelod-y-garth – pob un yn trefnu un cyfarfod yr un bob blwyddyn, a phob un ag iddyn nhw naws llenyddol. Diolch i Wyn Jones am lywio'r noson ac yn wir am drefnu i Ioan ddod i annerch - trefniadau wnaed, yn ôl pob sôn, dros seigiau roedd Wyn yn eu paratoi mewn barbeciw yn yr Eglwys Newydd! Gobeithio'n wir bydd tywydd yr haf eleni'n denu rhagor o awduron i gytuno i'n hannerch rywdro, ar sail coginio Wyn!



Gwrandawiad astud i Glenys Evans oedd yn annerch y plant yn y gwasanaeth Gŵyl Ddewi. Rhagor o luniau ar dudalen 9.

## Ymweld â Cherfluniau David Nash



Yng nghyfarfod olaf ein tymor treuliodd y Cwrdd Merched orig ddifyr iawn yn ymweld ag Arddangosfa '***Cerfluniau'r Tymhorau'*** gan David Nash yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Parc Cathays. Rhyfeddodd pawb at ddawn anhygoel David Nash i greu delweddau anghyffredin allan o goed o bob rhan o'r byd. Bu'r cerflunydd yn gweithio ar ei greadigaethau yn hen Gapel y Presbyteriaid, Y Rhiw, ym Mlaenau Ffestiniog ers 1968. Ar hyd y blynyddoedd mae ei waith wedi cael ei arddangos a'i werthfawrogi'n fyd eang. Manteisiwch ar y cyfle unigryw yma i ymweld â'r Arddangosfa fwyaf erioed o waith David Nash. Bydd yn yr Amgueddfa tan Fedi'r 1af 2019.

***(Eirlys Davis, Radur)***





(Ar y dde) Gwahoddiad i chi ymweld â Chanolfan Y Drindod, Four Elms Rd, nid nepell o Ffordd Casnewydd i weld y gwaith dyngarol sy'n digwydd yno. [At y ganolfan hon bu'r ddwy apêl ddiweddar am esgidiau a dilladau.]



# Pigion o'r Cwrdd Eglwys

Cynhaliwyd Cwrdd Eglwys ar fore Sul y 14eg o fis Ebrill 2019 a dyma grynodeb o'r pynciau a drafodwyd ac y penderfynwyd arnyn nhw:

1. **ARWEINYDD:** Nodwyd bod Delwyn Sion wedi bod yn Arweinydd ym Methlehem ers mis Medi 2016, gan ehangu ar ei ddyletswyddau gyda threigl y blynyddoedd. **Gwerthfawrogwyd ei gyfraniad yn ddi-gwestiwn gan y Cwrdd Eglwys a mynegwyd y dyhead i barhau ac i ddatblygu'r eglwys law yn llaw gyda Delwyn.** Ychwanegodd nifer a ymaelododd â'r eglwys yn ddiweddar iddynt deimlo a gwerthfawrogi gwres y croeso ym Methlehem.
2. **DIACONIAID:** Nodwyd bod 15 Diacon etholedig, 1 Diacon wedi ei gyfethol ar gais y Diaconiaid, a 2 Ddiacon Anrhydeddus yn rhengoedd Bethlehem ar hyn o bryd. (Derbyniwyd y pedwar olaf ym mis Ionawr 2013, ac mae dau o'r Diaconiaid yn rhan o'r ddiaconiaeth ers 1983. Ers 2013 derbyniwyd dymuniad 3 Diacon i ymddeol o'r ddiaconiaeth.) **Ni fynegodd y Cwrdd Eglwys unrhyw farn ar newid yn y nifer o ddiaconiaid.**
3. **SWYDDOGAETHAU: Cofrestryddion:**

   **Cytunodd y Cwrdd Eglwys ar yr egwyddor o alluogi'r Cofrestryddion i weinyddu priodasau y tu hwnt i furiau'r capel petai cais o'r fath yn cael ei wneud.**
4. **YR YSGOL SUL:**

   Mynegwyd diolch a chefnogaeth i'r drefn sydd wedi ei mabwysiadu o gynnal rota o rieni i ofalu am yr Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn.
5. **ELUSENNAU:**

   Cydnabuwyd cyfraniad yr eglwys i'r gwahanol elusennau yn ystod y flwyddyn, a chymeradwywyd yr ymateb brys a wneir i fudiadau am gymorth mewn argyfwng. Gwerthfawrogwyd yn ogystal y cyfleoedd a gafwyd i gymdeithasu fel rhan o'r ymgyrchoedd codi arian i'r gwahanol fudiadau, a dylid bod yn agored i gefnogi'r mentrau rheini yn ein canolfannau siopa pan fo'r cyfle yn codi. Nodwyd y byddai cyfle i ddewis elusen leol i'w chefnogi am dymor 2019/20 yn ystod mis Gorffennaf.
6. **ADNODDAU A CHYFARPAR:**

   Mynegwyd y pwysigrwydd o sicrhau offer priodol a phwrpasol ar gyfer defnydd yr aelodaeth yn y Capel a'r Festri (e.e. offer sain, taflunio, golau a.y.b.), ac y dylid, lle bo modd, symud ymlaen gyda'r ddarpariaeth angenrheidiol mor fuan a phosibl. Awgrymwyd yn ogystal y dylid cynnal trafodaeth ar yr hyn y gellid ei wneud o fewn adeiladwaith mewnol y capel (o fewn y terfynau cadwriaethol sydd arno) i'w wneud yn fwy hyblyg at ddefnydd yr aelodaeth.
7. **DIOGELWCH PLANT AC OEDOLION BREGUS:**

   Adroddwyd bod yr eglwys yn parhau i ddilyn y canllawiau a hyrwyddir yn "Llawlyfr Diogelwch Grwpiau Bregus" Undeb yr Annibynwyr, a bod sicrhau cymeradwyaeth y Panel Diogelwch Cydenwadol i gais aelodau unigol un a'i eisoes wedi ei gwblhau, neu o hyd ar waith.
8. **ADRODDIAD ARIANNOL:**

   Gohiriwyd trafodaeth ar hyn oherwydd anhwylder y Trysorydd.
9. **Y DYFODOL - DATHLIADAU 2022**

   Nodwyd i'r adeilad presennol gael ei adeiladu yn 1872, er i'r achos ei hun ddechrau yn 1832 mewn adeilad arall yn y pentref. Byddai 2022 felly yn garreg filltir yn hanes Bethlehem, a theilwng fyddai dathlu bryd hynny ei fod yn 150 mlwydd oed. Awgrymwyd y dylai'r aelodaeth chwilota am unrhyw ddeunydd yn eu meddiant a allai fod o gymorth i greu arddangosfa weledol a sain bryd hynny.
10. **CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG:**

    Nodwyd rhaglen waith y Cyfundeb:- ◆ Creu Eglwysi Dementia-Gyfeillgar ◆ Cefnogi Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr ◆ Taith "Heddwch yn y ddinas" [18fed o Fai 2019 dan arweiniad Jon Gower]
11. **UNRHYW FATER ARALL:**




◆ awgrymwyd y gellid adolygu'r drefn ymweld ag aelodau ◆ mynegwyd gwerthfawrogiad o gymdeithas Drws Agored (thema eleni: Beirdd ac Artistiaid), ac anogwyd eraill i fentro trwyddo yn y dyfodol.

[Mynegodd cyn-Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, y Parchedig Geraint Tudur, (a oedd yn digwydd bod yn bresennol yn dyst i fedydd yn gynharach yn y bore), ei ddymuniadau da i'r eglwys dan arweiniad Delwyn Sion, a'i fod yn falch o brofi o'r croeso, y trafod, y bwrlwm a'r afiaith oedd ym Methlehem.]

**Rhodri-Gwynn Jones** *(Ysgrifennydd)*














(uchod) Cyfranwyr i oedfa Gŵyl Ddewi ym Methlehem – a Leah wrth y piano. Heulwen (chwith), oedd yn ein harwain a Glenys (dde) wrth eu gwaith. Ôl llaw Anthony sydd ar y gwaith celf.



Ac o'r Plygain (pell yn ôl bellach) – y gynulleidfa yn yr hanner tywyllwch! (rhagor o luniau ar y dudalen nesaf)



# Yn awr ...yn ôl i Ionawr







Mae nos Sul y Plygain yn teimlo'n bell erbyn hyn – noson lle roedd nifer o bartïon, a hefyd is-bartïon o'r prif grwpiau, yn dod yn eu tro i gyfrannu i'r addoliad. Yr elfen newydd eleni oedd croesawu'r Dosbarth Iwcelele o Gaerdydd, dan arweiniad Mei Gwynedd, sydd yn cynnwys nifer o aelodau Bethlehem (fel y gwelwch isod). Diolch eto i Peter Wyn am gywain y cyfan ynghyd. (Mae ansawdd y lluniau'n amrywio – gan fod yr adeilad mewn hanner twyllwch!)







Diolch i bawb gyfrannodd i'r rhifyn hwn.
Os ydyn ni wedi anghofio rhywun neu rywbeth, rydyn ni'n ymddiheuro. Rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda am ddigwyddiadau Bethlehem rydych chi wedi bod yn rhan ohonyn nhw ac anfonwch unrhyw wybodaeth at: tycnau@aol.com – neu Ifan yn yr oedfa.